# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Mawrth, 26 Medi 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell 72a, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 1.00 pm - 1.05 pm

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y lleoedd gwag i Lywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi ei roi i Gadeirydd y Llywodraethwyr, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd. Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Porth Tywyn**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Mrs S. Reynolds |
| **Y Bynea**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Y Cynghorydd Deryk Cundy |
| **Tre Ioan**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Mr. S. Murphy |
| **Llanedi**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Y Parch. V. Jones |
| **Llangennech**<br>(1 lle gwag, 2 enwebiad) | • Mr. T. Davies<br>(penodiad o 13 Tach 2017) |
| **Myrddin**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Y Cynghorydd Emlyn Schiavone |

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Pont-iets**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Mrs D. Bowen |
| **Parc Waundew**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Y Cynghorydd Emlyn Schiavone |
| **Stebonheath**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Mr. N. Bevan |
| **Ysgol Uwchradd** | **Penodiadau** |
| **Emlyn**<br>(1 lle gwag, 1 enwebiad) | • Mr H. Davies |

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 6 GORFFENNAF, 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir.**

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales